

# Adroddiad Cryno
# Ymchwil i Rieni a Gofalwyr
## Cwricwlwm i Gymru

Medi 2023

**Megan Clark, Celia Dearden Briggs, Paul Gunn, Holly Williams, Simon Tanner, Llorenc O’Prey, Iwan Davies, Alessia Murgia, Theologis Strikos**

# Cynnwys

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Cyflwyniad........................................................ 3
Methodoleg a chyfyngiadau.............................. 5
Gwybodaeth a dealltwriaeth ........................... 6
Agwedd a barn ............................................... 8
Dewisiadau cyfathrebu..................................... 10
Anghenion gwybodaeth.................................... 11
Dadansoddi'r cyfryngau cymdeithasol.............. 12
Casgliadau......................................................... 13

# Cyflwyniad

Mae'r ymchwil hwn yn dadansoddi gwybodaeth a barn rhieni a gofalwyr am y Cwricwlwm newydd. Y bwriad yw rhoi sail i ymgyrch gyfathrebu barhaus Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm newydd a chefnogi rhieni, gofalwyr a phobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio i'r cwricwlwm newydd.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r adroddiad terfynol sy'n canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Mai a 31 Awst 2022. Cafwyd cyfanswm o bedwar adroddiad, sef:

- Adroddiad gwaelodlin ym mis Medi 2021
- Adroddiad interim ym mis Ebrill 2022
- Adroddiad terfynol ym mis Hydref 2022
- Crynodeb o'r adroddiad terfynol (sef y ddogfen hon) wedi'i gyhoeddi ym mis Awst 2023

Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ystod o wybodaeth ac ymchwil berthnasol. Mae hyn yn cynnwys yr ymgysylltu cychwynnol â rhieni a gofalwyr trwy arolwg panel hydredol a grwpiau ffocws. Defnyddia hefyd gipolygon a data o'r cyfryngau cymdeithasol i ddeall naratifau a sgyrsiau cyhoeddus yn ymwneud â'r cwricwlwm newydd.

Mae'r ymchwil yn ystyried gwahaniaethau yn y grwpiau rhieni, gan gynnwys  o wahanol ranbarthau yng Nghymru, oedran a chyfnod ysgol eu plentyn/plant, a'r defnydd o'r Gymraeg.

Yng nghyd-destun y newidiadau y mae'r Cwricwlwm newydd yn esgor arnynt, mae nifer o ystyriaethau cenedlaethol a lleol i'w cadw mewn cof wrth ddatblygu cyfathrebiadau sy'n ceisio gwella ymgysylltiad rhieni a chanlyniadau dysgwyr. Mae darparu gwybodaeth y gellir gweithredu arni yn allweddol i gefnogi ymgysylltiad rhieni, er enghraifft. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n galluogi rhieni a gofalwyr i ymgysylltu'n fwy gweithredol â dysgu eu plentyn.

Gellir dadlau bod y Cwricwlwm i Gymru yn cyflwyno her gyfathrebu unigryw; mae'n anodd darparu gwybodaeth benodol y gellir gweithredu arni, megis beth yn union y bydd plentyn yn ei ddysgu, oherwydd ei egwyddorion o gael mwy o sybsidiaredd a grymuso mwy ar ymarferwyr. Mae hyn yn nodi pwysigrwydd rôl ysgolion a lleoliadau yn rhoi gwybodaeth y gellir gweithredu arni i rieni i wella eu gwybodaeth a'u hymgysylltiad.



# Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnig profiad dysgu mwy perthnasol a diddorol i ddysgwyr, wrth eu paratoi at heriau'r 21ain ganrif.

Cydweithiodd athrawon ac arbenigwyr addysg o bob rhan o Gymru i ddatblygu fframwaith y cwricwlwm newydd. Bwriedir iddo fod yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion dysgwyr, gan fod â ffocws ar ddatblygu sgiliau megis meddwl yn feirniadol, datrys problemau a chreadigrwydd, yn ogystal â hyrwyddo lles a llythrennedd digidol.

Bydd pob ysgol yn dylunio ac yn gweithredu ei chwricwlwm ei hun o fewn dull cenedlaethol sy'n sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar draws y wlad, gan gydnabod pedwar diben y cwricwlwm fel gweledigaeth a dyhead a rennir ar gyfer pob person ifanc. Mae'r rhain i gynhyrchu:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bu'n rhaid i bob ysgol gynradd a lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir yng Nghymru roi eu cwricwlwm ar waith ers mis Medi 2022 ar gyfer dysgwyr hyd at Flwyddyn 6. Bydd Cwricwlwm i Gymru yn orfodol i bob dysgwr Blwyddyn 7 ac 8 o fis Medi 2023. Rhaid i ysgolion uwchradd wedyn gyflwyno eu trefniadau cwricwla newydd fesul blwyddyn hyd at Flwyddyn 11 ym mis Medi 2026.

Er mwyn sicrhau cyfnod gweithredu llwyddiannus y Cwricwlwm newydd, mae'n hanfodol bod rhieni a gofalwyr yn deall beth mae'r cwricwlwm newydd yn ei olygu i gefnogi dysgu a datblygiad eu plentyn.

I gael rhagor o wybodaeth i rieni a gofalwyr, ewch i:

Mae addysg yn newid: gwybodaeth i rieni, gofalwyr a phobl ifanc - Hwb (llyw.cymru)

Mae addysg yn newid | llyw.cymru

# Methodoleg a chyfyngiadau

Dyma brif elfennau methodoleg yr ymchwil hwn:

- **Arolwg panel ar-lein** oedd yn hydredol ac mewn tair ton ar gyfer rhieni a gofalwyr sydd â phlant rhwng 0-13 oed yn byw yng Nghymru. Roedd gan yr ymatebwyr yr opsiwn i lenwi'r arolwg yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dangosir ymateb yr arolwg yn y tabl isod.
- **Grwpiau ffocws ar-lein**. Cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws ym mis Awst 2022, gyda thri yn Saesneg ac un yn Gymraeg. Rhoddodd cyfanswm o 16 o rieni a gofalwyr o bob rhan o Gymru o'u hamser i gymryd rhan, gan gynnwys rhieni plant mewn lleoliadau meithrin, cynradd ac uwchradd, a rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- **Dadansoddiad o'r cyfryngau cymdeithasol** dan arweiniad Four Cymru. Roedd technegau gwrando cymdeithasol wedi dadansoddi cynulleidfaoedd a theimladau sgyrsiau ar-lein am y diwygiadau i'r cwricwlwm ymhlith rhieni.

**Yr Ymateb i'r Arolwg Panel**

| Cam Ymchwil | Cyfnod y Sampl | Ymateb y Sampl | Ymatebwyr unigryw |
|---|---|---|---|
| Cam 1 | 10-17 Medi 2021 | 301 | 301 |
| Cam 2 | 25-29 Ebrill 2022 | 301 | 165 |
| Cam 3 | 2-6 Medi 2022 | 301 | 124 |


**Ffynhonnell: Arolwg Panel Wavehill 2021-2022 (n=590)**

Mae nifer o gyfyngiadau y dylid eu hystyried wrth ddehongli canfyddiadau'r ymchwil hwn:

- Mae'r cymhellion ariannol a gynigir ar gyfer arolygon panel ar-lein yn golygu ei bod yn debygol bod yr ymatebwyr yn tueddu i fod yn ymatebwyr incwm is, yn ogystal â meddu ar sgiliau digidol a mynediad i'r rhyngrwyd i fedru ymateb.
- Mae ymatebwyr yn hunanddethol, sy'n golygu ei fod yn samplu didebygolrwydd. Er ein bod wedi sicrhau bod yr ymatebwyr yn gyffredinol gynrychioliadol o ddemograffeg poblogaeth rhieni a gofalwyr yng Nghymru (gan gynnwys oedran, rhyw ac ethnigrwydd) ni chasglodd arolwg y panel ddata ar incwm na galwedigaeth.
- Cafodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws eu recriwtio drwy randdeiliaid sy'n gweithio mewn ysgolion ledled Cymru. Cydsyniodd yr unigolion hyn i gymryd rhan mewn grŵp ffocws 1.5 awr ar noson yn ystod yr wythnos a chawsant eu digolledu am eu hamser gyda thaleb £20. Mae'r dull samplu hwn yn golygu efallai na fydd y safbwyntiau'n gynrychioliadol o holl rieni a gofalwyr Cymru. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i ddyfnder dealltwriaeth ac ystod yr agweddau ymhlith rhai rhieni a gofalwyr.
- Dylid deall unrhyw ddadansoddiad sy'n defnyddio data'r cyfryngau cymdeithasol yng nghyd-destun ffynhonnell y data. Mae'n debygol mai'r bobl sy'n postio ar gyfryngau cymdeithasol yw'r rhai sydd â barn gref am y pwnc dan sylw, ac mae'r data'n debygol o ddangos effaith polareiddio.

# Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r Cwricwlwm wedi cynyddu




Ffynhonnell: Arolwg Panel Wavehill 2021 a 2022

Roedd data'r panel diweddaraf yn dangos bod **ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm newydd ymhlith rhieni a gofalwyr yn fras yn parhau i gynyddu**. Ers mis Medi 2021, mae ymwybyddiaeth wedi cynyddu'n raddol o ychydig dros hanner (52%) i ddau draean (66%).

Ymhlith y rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau, dywedodd y mwyafrif eu bod yn gwybod sut bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar addysg eu plentyn/plant yn ymarferol. Dywedodd dros hanner (54%) y rhieni hyn fod ganddynt wybodaeth dda ynghylch sut y bydd y newidiadau yn effeithio ar eu plentyn, gyda dros draean (35%) yn nodi bod ganddynt rywfaint o wybodaeth. **Dim ond 12% o'r rhieni hyn a ddywedodd nad oeddynt yn gwybod unrhyw beth am sut y bydd y newidiadau yn effeithio ar eu plentyn.**

Mewn sgyrsiau yn y grwpiau ffocws, roedd yn amlwg bod y rhai a oedd yn fwy ymwybodol o'r cwricwlwm newydd yn gyfarwydd â datganiadau lefel uchel am y rhesymeg sylfaenol neu ffocws y diwygiadau, megis y ffaith y bydd pob ysgol yn dylunio ei chwricwlwm ei hun. Gallai rhai rhieni nodi prif nodweddion y cwricwlwm, gan gynnwys y Pedwar Diben a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh). Roedd rhai rhieni yn gwybod bod ysgol gynradd eu plentyn yn dechrau gweithredu'r cwricwlwm ym mis Medi 2022, tra nad oedd rhieni eraill yn gwybod cymaint ac nid oeddent yn ymwybodol pryd roedd ysgol eu plentyn yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Ymddengys bod y rhieni a wyddai fwyaf am y cwricwlwm yn canolbwyntio fwy ar fanylion ac yn dangos diddordeb mewn gwybodaeth am elfennau penodol ar y cwricwlwm. Nododd un rhiant a oedd yn gwybod llai am y cwricwlwm fod ganddo fwy o ddiddordeb yn y 'pam', gan egluro yr hoffai ddeall mwy am y rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau.

# Gwybodaeth a dealltwriaeth


wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Roedd pa gyfnod yr oedd eu plant yn yr ysgol yn dylanwadu ar ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau, gyda dros dri chwarter y rhieni â phlentyn mewn ysgol uwchradd (76%) yn ymwybodol o'r newidiadau, gan ostwng i 70% o rieni plentyn ysgol gynradd, a 68% yn y Meithrin. Rhieni plant mewn Ysgolion Arbennig, Ysgolion Canol, Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac ysgolion eraill oedd â'r ymwybyddiaeth leiaf o'r newidiadau, sef 56% yn unig.

Gwelwyd gwahaniaeth yn lefelau'r ymwybyddiaeth am y newidiadau i'r cwricwlwm yn ôl daearyddiaeth ranbarthol. Yn gyffredinol, roedd 72% o'r rhai yn y Gogledd yn ymwybodol o'r newidiadau, o'i gymharu â 64% yn y Canolbarth a'r De-orllewin a 62% yn y De-ddwyrain. Mae'r patrwm yn gyson o ran dyfnder y wybodaeth, wrth i 78% o rieni'r Gogledd fod â gwybodaeth dda am sut y bydd y newidiadau'n effeithio ar eu plentyn tra mai dim ond 31% o rieni'r De-ddwyrain a dywedodd hynny. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng y rhanbarthau gryn dipyn yn llai amlwg nag ym mis Ebrill 2022.

Roedd pobl sy'n siarad Cymraeg yn fwy rheolaidd yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r newidiadau – roedd 87% o'r rhai a nododd eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd yn ymwybodol o'r newidiadau, gan ostwng i 81% ar gyfer y rhai sy'n ei siarad yn wythnosol, 61% ar gyfer y rhai sy'n ei siarad yn fisol neu lai, a 46% ar gyfer y rhai nad ydynt byth yn siarad Cymraeg.

Ymwybyddiaeth o newidiadau i'r cwricwlwm fesul rhanbarth





**Ffynhonnell: Arolwg Panel Wavehill 2022 (n=301)**

# Agwedd a barn

Mae agweddau'n parhau i ddatblygu dros amser, gyda 69% o rieni yn y data diweddaraf yn awgrymu eu bod o blaid y newidiadau, sy'n ostyngiad o 80% ym mis Ebrill 2022. Gall y newid hwn fod yn rhannol oherwydd cyfran y rhieni a ddywedodd nad oeddynt yn deall y newidiadau yn ddigon da i wneud sylwadau, yn enwedig gan y cefnogir y dehongliad hwn gan y ffaith fod y farn negyddol tuag at y cwricwlwm wedi aros yn sefydlog ar 12%.

Mae cyfran y rhieni a gofalwyr a nododd eu bod yn gryf o blaid y newidiadau wedi gostwng (-12%), tra bu cynnydd bychan yn nifer y rhieni a gofalwyr a oedd yn gryf yn erbyn y newidiadau (+2%).

Agwedd tuag at y Cwricwlwm newydd




Ffynhonnell: Arolwg Panel Wavehill 2022 (n=200)

Yn ystod sgyrsiau grŵp, roedd rhieni plant mewn ysgol gynradd yn gadarnhaol ynghylch yr hyblygrwydd a gynigir i ysgolion ddarparu cwricwlwm mwy pwrpasol i'w disgyblion. O ran themâu penodol, ar draws y grwpiau ffocws yn Gymraeg a Saesneg, roedd rhieni yn gadarnhaol ynghylch cynnwys mwy o hanes lleol a hanes Cymru yn y cwricwlwm.

Roedd rhai yn gadarnhaol ynghylch y cyfle posibl i gefnogi gwahanol arddulliau dysgu ar gyfer plant, yn enwedig yn dilyn y tarfu ar addysg a achoswyd gan bandemig Covid-19. Er bod rhai rhieni'n bryderus am yr effaith a gafodd Covid-19 ar 'safonau academaidd', nododd llawer fod iechyd meddwl/llesiant a datblygiad cymdeithasol yn bwysicach iddynt.

Dywedodd rhieni eu bod wedi clywed sgyrsiau am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ymhlith rhieni eraill ac ar y newyddion ond nad oeddent wedi ymgysylltu â'r trafodaethau. Roedd rhai rhieni'n cytuno ei fod yn bwnc llosg a allai greu rhwygiadau, felly roedden nhw'n deall pam ei fod yn faes sydd wedi cael ei drafod yn eang, ond i'r rhai yn y grŵp ffocws nid dyna oedd eu prif bryder yn ymwneud â'r cwricwlwm. Roedd un rhiant o'r farn y byddai eglurder ynghylch yr hyn a addysgir ym mhob oedran a chyfnod yn ddefnyddiol i ddeall cynnwys yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd, ac y byddai'r ffocws hwn ar y cyfnod allweddol yn yr ysgol yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt hefyd ym meysydd eraill y cwricwlwm.

# Agwedd a barn

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Mae barn rhieni a gofalwyr am y cwricwlwm yn amrywio yn ôl cyfnod eu plentyn yn yr ysgol. Roedd tua thri chwarter (76%) y rhieni â phlentyn mewn ysgol gynradd neu yn y Meithrin o blaid y newidiadau, gyda 72% o rieni plant ysgol uwchradd o blaid. Dim ond 63% o rieni plant mewn Ysgolion Arbennig, Ysgolion Canol, Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac ysgolion eraill a ddywedodd eu bod o blaid y newidiadau. Fodd bynnag, gall hyn fod oherwydd cyfran fawr y rhieni hyn a ddywedodd nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth am y newidiadau i ffurfio barn arnynt.

Mae tystiolaeth o wahaniaeth rhanbarthol yn yr agwedd tuag at y cwricwlwm, gyda 78% o rieni'r Gogledd o blaid y diwygiadau o gymharu â dim ond 59% yn y De-ddwyrain, a 64% yn y Canolbarth a'r De-orllewin.

Y rheiny sy'n siarad Cymraeg bob dydd sydd fwyaf cadarnhaol am y newidiadau (89% o blaid), a hynny'n disgyn i 45% ymhlith y rheiny nad ydynt byth yn siarad Cymraeg.

Agwedd yn ôl lleoliad ysgol

| | Meithrin | Cynradd | Uwchradd | Arall |
|---|---|---|---|---|
| O blaid | 76% | 76% | 72% | 63% |
| Yn erbyn | 16% | 7% | 24% | 3% |
| Ddim yn gwybod | 8% | 17% | 4% | 34% |
| | n=25 | n=59 | n=25 | n=32 |

Ffynhonnell: Arolwg Panel Wavehill 2022 (n=200)



# Dewisiadau cyfathrebu



Er bod rhieni wedi derbyn gwybodaeth yn bennaf gan ffynonellau anuniongyrchol fel ffrindiau a theulu, y cyfryngau cymdeithasol, a chyfryngau newyddion, awgryma'r canfyddiadau ar ddewisiadau cyfathrebu bod rhieni yn aml eisiau clywed mwy am y newidiadau gan ysgol neu leoliad eu plentyn a gwefan Llywodraeth Cymru. Gan yr ymddiriedir yn y ffynonellau hyn fwyaf, maent yn allweddol i ymgysylltu penodol, ystyrlon ac sydd â ffocws iddo.


Roedd bron i hanner y sampl (49%) wedi clywed am y newidiadau i'r Cwricwlwm newydd yng Nghymru drwy deulu neu ffrindiau, gyda 38% wedi clywed drwy eu hysgol, 36% drwy'r cyfryngau a 23% drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn newid o'r darlun ym mis Ebrill 2022, pan oedd 40% o rieni wedi clywed ar y cyfryngau cymdeithasol a dyma'r ffynhonnell wybodaeth a ddyfynnwyd fwyaf.

Roedd canran y rhieni a oedd wedi clywed am y newidiadau drwy eu hysgol yn gyson â chanfyddiadau chwe mis yn ôl, sef 37% o rieni ym mis Ebrill 2022 a 38% ym mis Medi 2022.

O gymharu hyn ag ymhle y dymunai rhieni glywed am newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm yn y dyfodol, mae galw mawr am wybodaeth trwy ysgolion neu leoliadau. Byddai'n well gan dros ddeuparth (69%) yr ymatebwyr gael y math hwn o wybodaeth trwy eu hysgol, gan gynyddu o 54% ym mis Ebrill 2022. Dim ond traean (33%) a nododd ffrindiau a theulu, chwarter (25%) o wefan Llywodraeth Cymru, a byddai 19% yn hoffi clywed am y newidiadau o'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod sgyrsiau grwpiau ffocws dywedodd y rhan fwyaf o rieni fod cyfathrebu â'u hysgol yn cael ei wneud trwy apiau penodol neu gyfathrebu ar ffurf cylchlythyr, tra bod rhai yn nodi bod ganddynt sgyrsiau WhatsApp lle cyflwynid gwybodaeth. Nododd rhai rhieni eu bod yn defnyddio gwefan y llywodraeth yn aml wrth chwilio am wybodaeth, ond dywedodd mynychwyr grwpiau ffocws eraill fod sgiliau digidol yn rhwystr i ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein.

Cwestiwn: Ble clywsoch chi / hoffech chi weld neu glywed am y newidiadau?




Ffynhonnell: Arolwg Panel Wavehill 2022 (n=200)

# Anghenion gwybodaeth

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Er bod 62% o rieni wedi dweud bod gwybodaeth am y cwricwlwm newydd yn bwysig iawn neu'n hynod bwysig iddynt, nododd 4% o rieni a gofalwyr nad oedd y wybodaeth hon yn bwysig iddynt o gwbl.

Roedd gwahaniaeth daearyddol yn yr angen am wybodaeth, wrth i 8% o rieni yn y Canolbarth a'r De-orllewin ddweud nad oedd gwybodaeth am y cwricwlwm yn bwysig iddynt, o gymharu â dim ond 2% yn y De-ddwyrain. Yn y Gogledd yr ystyried bod cael gwybodaeth am y cwricwlwm bwysicaf o'i gymharu â rhanbarthau eraill, gyda 83% yno yn dweud bod gwybodaeth yn bwysig iawn neu'n hynod bwysig, o'i gymharu â 53% yn y De-orllewin a 48% yn y Canolbarth a'r De-orllewin.


O ran y math o wybodaeth y mae rhieni yn gofyn amdano, mae 71% ohonynt eisiau gwybod beth mae'r newidiadau yn ei olygu i'w plant, tra bod 67% eisiau gwybodaeth am sut i gefnogi dysgu eu plentyn gartref o dan y Cwricwlwm newydd. Roedd llai na hanner y rhieni yn yr arolwg (41%) eisiau mwy o wybodaeth am sut y bydd y newidiadau yn effeithio ar gymwysterau ac arholiadau, ond gallai hynny adlewyrchu oedran neu gyfnod ysgol eu plentyn/plant.

Pan ofynnwyd iddynt gymharu defnyddioldeb gwybodaeth o'r ysgol a gwybodaeth o ffynonellau ehangach i'w helpu i ymgysylltu ag addysg eu plentyn, roedd traean o'r rhieni (33%) yn cytuno'n gryf fod gwybodaeth o'r ysgol yn bwysig, tra mai dim ond 17% a deimlai hyn am ffynonellau gwybodaeth ehangach.

Awgrymodd trafodaethau yn y grwpiau ffocws fod yr angen am wybodaeth i rai rhieni am addysg eu plentyn yn ymwneud â'u lles a'u datblygiad cyffredinol yn hytrach na phynciau penodol. Nodwyd ganddynt eu bod yn ffyddiog bod y cwricwlwm yn addas i'r diben ac na fyddai'n newid lefel y cymorth y gallent ei gynnig i'w plentyn o ran gwaith cartref.

Dywedodd un rhiant eu bod, wrth ymchwilio i'r cwricwlwm newydd, wedi cael eu llethu gan y swm o wybodaeth, a bod angen ffeithiau allweddol arnynt a oedd yn berthnasol i oedran a chyfnod ysgol eu plentyn.

**Cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno eich bod chi'n gwybod ble i gael gafael ar wybodaeth i gefnogi addysg eich plentyn?**




Ffynhonnell: Arolwg Panel Wavehill 2022 (n=301)

# Dadansoddi’r cyfryngau cymdeithasol


Mae’r dudalen hon yn crynhoi’r gwaith maes a gynhaliwyd gan Four Cymru wrth iddynt geisio deall amlder, y teimlad a’r cynulleidfaoedd yn ymwneud â sgwrsio ar-lein am y cwricwlwm yng Nghymru. Defnyddiodd y dadansoddiad hwn gyfryngau cymdeithasol ffynhonnell agored a sgyrsiau digidol yn y DU rhwng 1 Ionawr 2018 a 31 Awst 2022.

Dal i gynyddu oedd nifer y sgyrsiau a gynhyrchwyd gan rieni ynghylch y cwricwlwm newydd yn ystod y cyfnod adrodd terfynol. Cyfrifon dibynadwy swyddogol, megis @LlC_Addysg a @LlywodraethCym yw’r ffynhonnell wybodaeth amlycaf ymhlith rhieni a gofalwyr, defnyddiwyd yr hashnod #holijeremy hefyd i ymgysylltu â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles.

Daliwyd ati’n eang i drafod pynciau’r cwricwlwm, yn enwedig Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a’r ddarpariaeth Gymraeg, a’r sylw ar ei uchaf wedi’i ysgogi gan lansiad y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol a dymuniadau da i ddysgwyr wrth sefyll eu harholiadau. Cymysg yw teimladau rhieni a gofalwyr, gyda chyfran y sgyrsiau negyddol wedi cynyddu ychydig ers mis Ebrill 2022, wedi’i hysgogi’n rhannol gan y trafod mawr am ACRh.


Rhannai rhieni eu pryderon ar-lein ynghylch newidiadau sydd i ddod yn sgil y Cwricwlwm newydd, gan gynnwys trafodaethau ynghylch dilyniant a chymwysterau. Wrth sôn am roi’r cwricwlwm ar waith, cymysg oedd yr ymatebion wrth i rai rhieni ganmol y newid ac eraill wedi codi eu pryderon.

Cyfanswm sgyrsiau cymdeithasol bob mis 1 Ionawr 2018 – 31 Awst 2022




Ffynhonnell: Four Cymru

# Casgliadau



**Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn dangos cysylltiad rhwng gwybodaeth ac agweddau ynghylch y cwricwlwm.** Ymddengys bod y rhieni hynny a oedd yn gwybod fwyaf am y cwricwlwm hefyd yn rhai a ganolbwyntiai'n fwy ar fanylion ac wedi dangos diddordeb mewn gwybodaeth am agweddau penodol ar y cwricwlwm. Ymhlith y rhieni hynny oedd yn gwybod leiaf am y cwricwlwm, roedd ganddynt fwy o ddiddordeb yn y rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau. Nid oedd llawer o rieni'n ymwybodol o'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r rhaglen mewn perthynas ag ysgol eu plentyn neu blant, a dylid mynd i'r afael â hyn fel mater o flaenoriaeth.

Y tu hwnt i godi ymwybyddiaeth o'r diwygiadau, mae'r cwricwlwm newydd yn cyflwyno her gyfathrebu gymhleth ar lefel genedlaethol o ran cysoni'r angen am wybodaeth benodol â ffocws y cwricwlwm newydd ar rymuso ysgolion ac ymarferwyr. **Mae sgyrsiau mwy agored gyda rhieni yn awgrymu eu bod yn ymateb i ddatganiadau cyffredinol clir am gynnwys y cwricwlwm, yn enwedig os caiff ei wahanu yn ôl cyfnod ysgol eu plentyn.** Pan wnaed hyn ar gyfer ACRh, roedd rhieni'n gadarnhaol mai dyma'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt.

**I rieni a gofalwyr yng Nghymru, mae'r gwahaniaeth yn y wybodaeth a'r agwedd yn ôl nodweddion rhanbarthol a demograffig yn dangos y gallai fod yn ddefnyddiol targedu'r cyfathrebu i wella'r consensws cyffredinol am y cwricwlwm newydd.** Yn y Gogledd y mae'r nifer uchaf o rieni sydd yn gwybod fwyaf ac â'r farn fwyaf cadarnhaol am y newidiadau o gymharu â'r De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Canolbarth. Roedd rhieni plant mewn Ysgolion Arbennig, Ysgolion Canol, Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) yn gwybod llawer llai am y diwygiadau na phlant mewn addysg brif ffrwd yn y meithrin, ysgol gynradd neu uwchradd.

Mae'r cynnydd mewn rhannu gwybodaeth ar lafar a sgyrsiau rhieni ar y cyfryngau cymdeithasol yn awgrymu bod **sgyrsiau am y cwricwlwm yn tyfu**. Mae hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru gefnogi'r ddeialog hon. Awgryma'r canfyddiadau o'r adroddiad hwn mai **cyfathrebu drwy ffynonellau dibynadwy fel ysgolion yw'r dull cyfathrebu yr ymddiriedir ynddo fwyaf er mwyn ymgysylltu'n ystyrlon â rhieni**, a bod rhieni hefyd yn troi at wefannau awdurdodau lleol a'r llywodraeth i chwilio am ragor o wybodaeth.